

Annwyl rieni/*Dear parents,*

A dyma ni'n agosau at ddiwedd blwyddyn ysgol arall – un sydd wedi bod, heb amheuaeth, yn un dra gwahanol ond hanesyddol iawn. Diolchir yn ddi-ffuant i bawb o fewn cymuned Ysgol Glanrafon am eu cydweithrediad parod yn ystod y cyfnod eithriadol anodd hwn.

Sylweddolir yn llwyr fod pawb yn awyddus i wybod beth fydd yn digwydd ym mis Medi ar gyfer y flwyddyn addysgol 2020-2021. Hyd yma, nid yw'r canllawiau ar gyfer y trefniadau hynny wedi cyrraedd yr ysgolion oddi wrth Gynulliad Cymru. Byddwn yn rhannu unrhyw wybodaeth pellach a pherthnasol gyda chi pan dderbynnir y canllawiau hynny.

Mae'r trefniadau cychwynnol wedi'u gwneud yma yng Nglanrafon, a byddwch yn derbyn cadarnhad am ba ddsbarth y bydd y plant ym mis Medi, yr un pryd ag y byddwch yn derbyn yr adroddiad blynyddol am eich plentyn, cyn i ni gau am wyliau'r haf yr wythnos nesaf. Bydd yr adroddiadau'n cael eu hanfon atoch drwy eich cyfeiriad e bost chi, fel rhieni, yn unigol.

Er gwybodaeth, byddwn yn canolbwyntio ar weithgareddau pontio wythnos nesaf ar gyfer paratoi eich plentyn/plant ar gyfer ei d/ddsbarth ac athro/athrawes newydd ym Mis Medi. Bydd y gweithgareddau yn cael ei gyrru i'r plant drwy Teams a Seesaw.

Yn ôl ein harfer, ni fyddwn yn gosod gwaith cartref ar gyfer y disgyblion dros wyliau'r haf, ond yn annog pawb, fel bob amser, i fwynhau treulio amser yn ymlacio gyda'r teulu.

Cofion caredig atoch i gyd.

*Here we are again – approaching the end of another academic year – one which has, without a doubt, been very different and indeed a historical one. Everyone within Ysgol Glanrafon's community is sincerely thanked for their co-operation during this exceptionally difficult time.*

*It is fully understandable that everyone is anxious to know what is happening in September in readiness for the 2020-2021 academic year. Up to now, the guidelines for this have not been received by schools from the Welsh Assembly. We will share any further and relevant information with you when we receive the guidelines.*

*The first steps have been taken here at Glanrafon, and you will receive confirmation of your child's class in September, together with his/her individual annual report, before we close for the summer holiday next week. The reports will be sent directly to the parents' e mail addresses.*

*For your information, we will be concentrating on transition activities next week to prepare your child for his/her new class and teacher for September. These activities will be posted on Teams and Seesaw.*

*As usual, we will not be setting homework for the children to complete during the summer holiday, but encouraging everyone, as always, to enjoy spending time relaxing with the family.*

*Very best wishes to you all.*

Yn gywir/*Yours sincerely,*

L.L.M.Jones (Miss)

(Prifathrawes – *Headmistress*)